Philip Llywellyn Jones yn rhoi cefndir

# CROCHENWAITH YNYSMEUDWY (1)

Beth wyddoch chi am grochenwaith Ynysmeudwy? Er bod crochendy Ynysmeudwy yn gymharol ddinod, roedd yn cynhyrchu crochenwaith o safon uchel yn ei amser.

Dechreuais ymddiddori yng nghrochenwaith Ynysmeudwy tua 1960 wrth ymchwilio achau'r teulu. Penderfynais bryd hynny gofnodi peth o hanes y crochendy a'r ardal.

Saif Ynysmeudwy i'r gogledd o Bontardawe. Ar ddiwedd y 18fed ganrif roedd Pontardawe, Craig Llangiwg ac Ynysmeudwy yn dri phentref bychan. Yna yn 1798 cwblhawyd camlas Abertawe ac yn sgil hyn daeth diwydiant newydd i'r ardal i ychwanegu at waith haearn Ynyscedwyn yn Ystradgynlais ac Ynyspenllwch, Clydach. Adeiladwyd y gamlas yn wreiddiol i gario glo o ben uchaf Cwm Tawe i ddociau Abertawe. Ymhen amser daeth yn ddull trafnidiaeth pwysig i ddiwydiant newydd oedd yn datblygu yn yr ardal. Un diwydiant pwysig oedd gwaith briciau a adeiladwyd gan Ebenezer Edwards yn 1844. Yna yn 1845 daeth yn grochendy llewyrchus, yn cyflogi nifer fawr o bobl, pan gymerwyd y gwaith drosodd gan Michael a William Williams, dau frawd o Gernyw.

Roedd hen gysylltiad rhwng Cernyw a Chymru – prynwyd mwynau, clai a nwyddau eraill o Gernyw ers blynyddoedd ac roedd brodorion Cernyw yn ymgartrefu yng Nghwmtawe yn aml. Daeth teulu fy hen dadcu, Ben Hawkins (Hogins) o Gernyw i Abertawe yng nghanol y 18fed ganrif. Gweithiodd Ben ar y llongau hwylio yno cyn dod i fyny'r Cwm i Gelli-nudd a chychwyn teulu'r Hogins. Sonnir amdano yn llyfr 'Hirfryn', *'Hanes Hen Frodorion Gellinudd'*. Yna daeth fy hen dadcu arall o Gernyw hefyd a gweithio fel torrwr cerrig pan adeiladwyd Eglwys San Pedr ym Mhontardawe.

Dechreuodd Michael a William Williams gynhyrchu briciau, pibellau pridd, teils to, jygiau pridd, addurniadau i'r ardd a photiau simne. Yn *'Hunts Directory 1848, Bristol, Newport and Welsh Towns,'* disgrifir William Williams fel 'Brick and Tile Maker', gyda swyddfa yn y Strand, Abertawe. Nodir yn *'Pearce and Brown's Directory 1856'* fod William Williams yn *'proprietor of the Pottery and Brick Works at Ynysmeudwy and had an agent, Mr Hore, in the Strand, Swansea'*. Hwn yw'r tro cyntaf i grochendy gael ei grybwyll yn ogystal â gwaith briciau. Cynyddodd y galw am y briciau gan ddiwydiannau newydd a ddaeth gyda datblygiad gweithfeydd dur, sef Parsons, ac wedyn Gilbertsons ym Mhontardawe. Gwelwyd enghraifft o botiau simne Ynysmeudwy ar yr hen ysgoldy a adeiladwyd gan William Parsons yn 1856 i Eglwys San Pedr fel Ysgol Wladol. Mae gennyf simne hardd o waith Ynysmeudwy yn fy ngardd ac mae wrn ardderchog yng ngardd cyfaill i mi. Fe welwch deils to ar Dŷ Tanyrallt, Alltwen ac rwyf wedi dod ar draws teilsen gyda'r marc YNYSMEDW (sic) POTTERY SWANSEA VALE.

Ar furiau Tŷ Alltycham (a fu unwaith yn gartref i'r cyn Archdderwydd, y Parchedig Dafydd Rowlands) fe welir border o deils sydd yn nodweddiadol o waith Ynysmeudwy. Felly mae yna ddigonedd o dystiolaeth o terracotta a nwyddau addurniadol o'r crochendy.

Ganwyd William Williams yn Penponds, ger Trevertha ym mhlwyf Gwennap, Cernyw yn 1825, yr ieuengaf o dri brawd. Pan oedd tua 30 oed priododd Sophia, 23 oed o Maidstone yng Nghaint. Symudodd y ddau i Dŷ Ynysmeudwy. Ymhen blynyddoedd daeth Tŷ Ynysmeudwy yn westy o'r enw Glanafon a llosgwyd yr adeilad i'r llawr ar ddydd Iau Mai 30, 1991. Bu Cymdeithas Hanes Pontardawe yn ffodus i gael plac cerrig gyda'r dyddiad *'March 1845'* uwch ben dwy galon. Bu hwn yn addurno'r crochendy ar un amser ac fe allai fod yn arwydd o gariad William a Sophia a'u bywyd newydd.

Pum simne Ynysmeudwy



Cyflogodd William 30 o bobl yn 1851, nifer ohonynt o Gernyw – efallai iddynt symud i Ynysmeudwy yr un pryd â William, oherwydd eu bod yn weithwyr angenrheidiol. Yn ôl Cyfrifiad 1851 ac Adroddiadau Bedydd Plwyf Llangiwg, roeddent yn byw ym Mythynnod Ynysmeudwy a chawsant eu cyflogi fel *'throwers, turners, slip-makers, biscuit firers, glost firers, flat pressers, hollow pressers, printers, enamel firers, painters, transferers, millers, squeezers, dippers, sagger makers, mould makers, packers, brick makers, drain pipe makers as well as general labourers.'* Cyflogwyd plant o bedair ar ddeg oed hyd at oedolion o bedwar deg oed.

Prynodd y crochendy glai o Gernyw a Dyfnaint a ddaeth ar longau i Abertawe yna i fyny'r Cwm i Ynysmeudwy ar y gamlas. Cloddiwyd y clai tân yng Nghilybebyll a defnyddiwyd glo lleol. Deunydd pwysig arall oedd cerrig fflint.

Adeiladwyd saith odyn, a defnyddiwyd yr odynau bychain a'r gyfer y taniad cyntaf (bisged) a'r odynau mwya a'r gyfer y taniad olaf ('glost' – i roi sglein ar y llestri). Lluniwyd y mowldiau yn y crochendy – byddai'n angenrheidiol i ail wneud y rhain yn aml er mwyn sicrhau patrwm clir. Gellid newid y mowldiau mewn unrhyw ffordd yn ôl y ffasiwn e.e. ar y jygiau – gellid newid siâp y ddolen hefyd, wrth gwrs. Fel arfer prynwyd trosluniau (*transfers*) ar blatiau copr oddi wrth ysgythrwyr oedd wedi arwyddo cytundeb â'r crochendy ond weithiau fe'u lluniwyd yn y gwaith. Wedi i'r llestri gael eu gorffen, byddent yn cael eu lapio yn ofalus a'u hanfon ar gwch ar y gamlas i lawr y Cwm i Ddociau Abertawe.

Parhaodd y crochendy dan ofal William Williams nes i'w frawd arall, Charles, gymryd drosodd yn 1859. Dywed *'Slater's North and South Wales Directory 1858/9'* fod Charles Williams yn berchennog gwaith oedd yn cynhyrchu briciau tân a theils gydag asiant y gwaith yn y Strand, Abertawe. (Mae'r gair Crochendy yn cael ei gynnwys yn nheitl y gwaith).

Gwerthodd Charles Williams y gwaith i Lewis a Morgan, Pontardawe – disgrifir y ddau mewn gwahanol lyfrau fel perchnogion glofeydd, perchnogion y *Primrose Coal Co.* ac fel gwŷr bonheddig lleol. Parhaodd y crochendy i gynhyrchu bricau a.y.y.b nes iddynt hwythau yn eu tro werthu'r busnes i W. T. Holland Llanelli yn 1870/1.

Dywed *'Worrels Directory 1876'* fod W. T. Holland yn berchennog "Ynisymudw *(sic) Fire Bricks, Pipe and Terra Cotta Works near Swansea, with an agent, Mr R Elliot, 29 Powell St., Swansea.'* Does dim sôn am *'Pottery'*. Efallai mai dyma'r rheswm fod gan Lanelli ac Ynysmeudwy **rhai** patrymau sydd yn debyg iawn i'w gilydd. Mae'n bosib fod ychwanegiadau wedi eu gwneud i'r platiau copr gwreiddiol oedd yn cynnwys y trosluniau a'r *'cartouche'* ar gefn y llestri fel y gwnaeth Calland, Landore yn amlwg ar batrwm *'Sirius'* ac eraill. Felly, wrth reswm, mae'n llawer mwy dymunol i gael darnau gyda marc arnynt na rhai heb farc er mwyn sicrhau eu dilysrwydd fel llestri Ynysmeudwy. Fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol i rai patrymau yn unig.

Yn ei llyfr *'Llanelli Pottery'* dywed Dilys Jenkins fod W. T. Holland wedi prynu Ynysmeudwy yn 1870 a'i fod wedi parhau i weithio y crochendy am beth amser. Mae John Henry Davies a Derek Harper yn awgrymu fod yr offer wedi eu symud i Lanelli tua 1877. Rwyf innau yn tueddu i gyd-fynd â nhw oherwydd bu fy ngwraig a minnau yn ymchwilio yn Archifdy Abertawe a darganfod tystysgrif 197 yng Nghofrestr Bedydd Plwyf Llangiwg 1878 yn disgrifio John Thomas, sef tad y priodfab, fel *'potter'*. Mae hwn yn profi fod y gwaith yn parhau yn Ynysmeudwy yn 1878 ond mae'n codi cwestiwn – a oedd crochenwaith yn cael ei

*Parhad ar dudalen 15*